

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd S Powderhill	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd P Howe
Y Cyngorydd L Jones	

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd  
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng-flaen  
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol  
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd  
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol  
Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi Trwyddedu  
PC Whittle - Heddlu De Cymru

**28 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Webster.

**29 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**30 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

**31 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 10.09.19 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

**32 Cyhoeddiad gan y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai sesiwn hyfforddi ynglŷn â'r Polisi Trwyddedu newydd yn cael ei chynnal cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu ar 3 Rhagfyr 2019.

Byddai manylion pellach am yr hyfforddiant yn cael eu rhoi i'r Aelodau maes o law.

**33 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 25.08.19 - 29.09.19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 25 Awst 2019 i 29 Medi 2019 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**34 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**35 Trafod yr apeliadau canlynol yn erbyn gwrthod caniatáu eu defnyddio fel Personél Cludiant dan Gontract:**

**Nodwch:** Ar y pwynt yma, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Jones y buddiant personol canlynol a oedd yn rhagfarnu: "Mae'r ymgeisydd yn hysbys i mi ac felly byddaf yn gadael y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei thrafod"

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd fanylion y cais canlynol i fod yn Bersonél Cludiant dan Gontract ar gludiant ysgolion, gwasanaethau cymuned a chontractau cysylltiedig eraill ar gyfer cludiant.

Yn unol â gweithdrefnau mabwysiedig, derbyniodd yr Aelodau Mr SJH o Gaerdydd, er mwyn ystyried yr apêl i'w ddefnyddio yn Bersonél Cludiant dan Gontract.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger bron y Pwyllgor **PENDERFYNWYD** gwrthod yr apêl, gan gadarnhau bod Mr Harrison yn anaddas i'w defnyddio yn Bersonél Cludiant dan Gontract.

**36 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 31.08.19 - 04.10.19**

**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu o'r blaen (Cofnod Rhif 35), dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Jones i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 31 Awst 2019 i 4 Hydref 2019.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**37 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 26.08.19 - 29.09.19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 26 Awst 2019 i 29 Medi 2019.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm**

**Y Cynghorydd A Fox  
Cadeirydd.**